# Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 20-09 (p2) : 14 Hydref 2009**

## Cyllideb ddrafft 2009-10 ar gyfer Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

### Diben

1. Darparu papur tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Dysgu ar gyllideb 2010-11 ar gyfer Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (PADGOS) a'i blaenoriaethau.

### Amseru

2.Cyhoeddwyd y gyllideb ddrafft ar 6 Hydref 2009.

### Cyllideb Ddrafft 2009

3.Mae Cyllideb Ddrafft 2009 yn darparu'r adnoddau ar gyfer 2010 -11 a fydd yn cael eu buddsoddi i wella ymhellach y ddarpariaeth o'r gwasanaethau i blant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau yng Nghymru. Yn Nhabl 1 mae trosolwg o'r newidiadau i gyllideb PADGOS neu'r 'prif grwp gwariant' (MEG) yn sgil y gyllideb ddrafft.

**Tabl 1:  Prif Grwp Gwariant ar gyfer Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

£000

| | 2009-10 | 2010-11 | 2010-11 | 2010-11 |
|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Atodol | Cyllideb Ddangosol | Cynlluniau Diwygiedig | Newidiadau i 2009-10 |
| Refeniw Terfyn Gwariant Adrannol | 1,677,816 | 1,694,303 | 1,692,892 | 15,076 |
| Cyfalaf Terfyn Gwariant Adrannol | 264,841 | 225,711 | 182,892 | -81,949 |
| Cyfanswm Terfyn Gwariant Adrannol | 1,942,657 | 1,920,014 | 1,875,784 | -66,873 |
| 372 | | | | |
| Gwariant a Reolir yn flynyddol | 163,660 | 174,266 | 174,266 | 10,606 |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **2,106,317** | **2,094,280** | **2,050,050** | **-56,267** |

### Dull Strategol o Weithredu

4.Seiliwyd y gyllideb ddrafft ar gyfer Prif Grwp Gwariant (MEG) Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (PADGOS) ar ddull strategol o greu enillion effeithlonrwydd ar draws y portffolio. Lluniwyd cyfres o gynigion cyllideb integredig er mwyn cyflawni blaenoriaethau Cymru'n Un, darparu effeithlonrwydd a byw o fewn sylfaen adnodd ddiwygiedig.

5. Y flaenoriaeth o ran cyllido ar gyfer PADGOS yn 2010-11 yw cefnogi mesurau sy'n gwrthsefyll y dirywiad economaidd, ac yn arbennig mynd i'r afael â diweithdra ymysg yr ifanc. Gan gymryd fel man cychwyn ddyraniad dangosol MEG PADGOS ar gyfer 2010-11 fel y'i nodir yng nghyllideb flaenorol Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r cynigion refeniw yn rhyddhau £39m o refeniw ac yn ail-neilltuo refeniw gwerth £35m ar draws y MEG (y gwahaniaeth o £4m yw'r lleihad cyffredinol gofynnol o 1.6% yn y refeniw, heb gynnwys adnoddau ychwanegol a ryddhawyd o gronfeydd y Cynulliad, sef £22m). Mae hyn yn cynnwys cynnydd o £20.5m yn yr adnoddau ar gyfer sgiliau a mynd i'r afael â diweithdra. Bydd Strategaeth Addysg yr Iaith Gymraeg, Cwnsela a'r Strategaeth Ieuenctid hefyd yn elwa o hyn. Mae cyllid y Brifysgol Agored yn cael ei brif ffrydio yng nghyllideb Anelu'n Uwch.

6. Mae ail-fantoli'r MEG yn sylweddol wedi golygu gostyngiadau mewn meysydd eraill. Drwy Ymarfer Asesu Adnoddau mewnol

Llywodraeth y Cynulliad yn 2009, y sail resymegol a ddilynwyd oedd yn gyntaf ymgymryd ag adolygiad manwl o gyllidebau datblygu yn ôl disgresiwn, ac yn ail sefydlu, fel isafswm, ffactor effeithlonrwydd mewn termau real ar draws yr holl sectorau.

7 Ar y cyfan, mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn gyfres integredig o gynigion. O fewn y MEG, mae'r cynnydd yn y cyllidebau unigol yn cydbwyso'r gostyngiadau. Mae'r sylfaen adnoddau sy'n gostwng yn ei gwneud yn angenrheidiol gwneud penderfyniadau anodd, ac maent yn cael eu dwysáu ym mhortffolio PADGOS gan y gofyniad i roi sylw i anghenion diweithdra a sgiliau. Mae'r cynigion yn y gyllideb yn mynd i'r afael â'r penderfyniadau anodd hyn ac yn darparu mwy o adnodd lle mae'r angen fwyaf - yn arbennig wrth ymdrin â diweithdra ymysg yr ifanc.

## Cyflawniadau

8. Cyflawnwyd llawer iawn mewn addysg a dysgu gydol oes yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dylai'r holl bobl sy'n gysylltiedig â'r gwelliannau hyn fod yn falch o'u cyflawniadau.

9. Er enghraifft, mewn asesiadau diweddar gan athrawon, dyma ganran y disgyblion a oedd yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn pynciau craidd:

81 y cant yng Nghyfnod Allweddol 1 (0.4 pwynt canran yn uwch na'r llynedd);

77 y cant yng Nghyfnod Allweddol 2 (1.6 pwynt canran yn uwch na'r llynedd); a

61 y cant yng Nghyfnod Allweddol 3 (1.7 pwynt canran yn uwch na'r llynedd);

Yn y canlyniadau diweddaraf ar gyfer 2007/08, cyrhaeddodd 58% o blant 15 oed y trothwy ar gyfer Lefel 2, 3 phwynt canran yn uwch nag yn 2006/07, a 10 pwynt canran yn uwch nag yn 1998/99.

Er bod gwelliannau wedi bod i nifer o fesurau eraill, rydym yn ail-ganolbwyntio ein hymdrechion i adeiladu effeithiolrwydd ysgolion gyda Phwrpas Cenedlaethol i Ysgolion i ddatblygu pethau ymhellach.

10. Cafwyd gwelliannau, ar lefel sector, yn yr holl fesurau o ganlyniadau dysgwyr ôl-16 rhwng 2006/07 a 2007/08. Erys amrywiaeth yn y cyfraddau o ran pynciau.

67 y cant oedd y gyfradd lwyddiant gyffredinol ar gyfer gweithgarwch dysgu ar gyfer AB yn 2007/08, h.y. llwyddwyd i gyflawni a chwblhau dwy ran o dair o'r gweithgareddau yn llwyddiannus.

Cafwyd gwelliant ysgubol yn nifer y prentisiaid sy'n cwblhau fframweithiau llawn yn ystod y blynyddoedd diweddar - mae cyfraddau llwyddiant fframwaith prentisiaethau yn gyffredinol bellach wedi rhagori ar darged Llywodraeth y Cynulliad o 50%. Yn 2007/08, cwblhaodd 66 y cant o ddysgwyr ar draws yr holl Brentisiaeth Fodern a'r Brentisiaeth Fodern Sylfaenol eu fframweithiau, o'i gymharu â 54 y cant yn 2006/07.

11. Lansiwyd y Rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau mewn pryd ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2009/10. Mae 2,000 o leoedd ar gael ar y cynllun. Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno gan 19 o Sefydliadau Addysg Bellach ar draws Cymru a'r nod yw darparu llwybr hyblyg i bobl ifanc ennill yr wybodaeth gychwynnol a'r sgiliau sy'n ofynnol i gwblhau'r fframwaith prentisiaeth lawn yn llwyddiannus.

12. Cafwyd 125,540 o gofrestriadau ar gyfer addysg uwch mewn sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn 2007/08 (2 y cant yn is nag yn 2006/07), ac roedd 63,835 o'r rhain yn gofrestriadau blwyddyn gyntaf (1 y cant yn uwch nag yn 2006/07).

13. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymateb i'r dirywiad economaidd drwy gynnig mwy o gymorth i unigolion a busnesau. Mae rhaglen ReAct yn darparu hyfforddiant a chymorth cyflog i weithwyr sy'n ddi-waith. Mae'r rhaglen ProAct newydd wedi ennill clod ar draws y DU. Fe'i rhoddwyd at ei gilydd mewn amser byr iawn, ac mae'n darparu cefnogaeth hyfforddi i weithwyr sydd mewn perygl o gael eu gwneud yn ddi-waith. Ar adeg ysgrifennu hwn anfonwyd llythyrau cynnig grant i 115 o gwmnïau a neilltuwyd mwy na £15m o gyllid.

## Pensaernïaeth y Prif Grwp Gwariant (MEG)

14. Mae'r MEG ar gyfer Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn cynnwys pedair adran, neu Feysydd Rhaglen Wariant. Diwygiwyd y rhain er mwyn darparu mwy o dryloywder ac er mwyn bod yn gydnaws â meysydd blaenoriaeth a strwythur Adrannol APADGOS. Mae cyfansymiau'r cyllidebau ar gyfer y gyllideb ddrafft i'w gweld yn Atodiad 1. Mae cysoniad â chyflwyniad y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) a ddarparwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn Atodiad 2.

15.Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer cyllideb PADGOS a'r dyraniadau cyllid angenrheidiol wedi'u nodi isod.

## Grwp Plant, Pobl Ifanc ac Effeithiolrwydd Ysgolion

Mae Maes y Rhaglen Wariant yn cynnwys cyllid ar gyfer:

hawliau a hawliadau plant a phobl ifanc;

hybu lles pob plentyn a pherson ifanc drwy gynnig cymorth i'w helpu i gyrraedd eu potensial llawn;

hyrwyddo cynhwysiant, lleihau anfantais a mynd i'r afael â thlodi cyfleoedd addysgol;

rhoi sylw i anghenion dysgwyr o bob oedran gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a materion cynhwysiant;

canolbwyntio ar effeithiolrwydd ysgolion.

**Strategaeth Plant a Phobl Ifanc**

Mae'r gyllideb weithredol hon yn darparu cyllid ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc yn y grwp oedran 0-25. Mae hyn yn cynnwys:

Hawliau a hawliadau plant a phobl ifanc (0-25);

Polisïau gofal plant a rhianta;

Llwybrau Dysgu 14-19;

Gwaith ieuenctid;

Ymestyn Hawliau;

Perthynas LlCC â Chomisiynydd Plant Cymru;

Dysgu ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed yn y system cyfiawnder troseddol.

Darparwyd cynnydd o £2.5m i barhau â'r gwaith o roi'r camau sy'n gysylltiedig â rhoi'r Strategaeth Ieuenctid ar waith. Cyflawnwyd hyn drwy adolygu amseriad cyflwyno'r Gronfa Ddata ar Blant a'r enillion effeithlonrwydd posibl a nodir o fewn Cymorth.

**Arweinyddiaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion**

Mae'r gyllideb weithredol hon yn rhoi cymorth i'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY) sy'n nodi'r weledigaeth ar gyfer effeithiolrwydd ysgolion yn seiliedig ar ddiwygio ar dair lefel. Y diwygio tair lefel yw'r Cynulliad, llywodraeth leol ac ysgolion yn cydweithio'n effeithiol ar fentrau polisi a rhaglenni sy'n effeithio'n gadarnhaol ar les plant a phobl ifanc.

O fewn y cyllidebau Arweinyddiaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion, mae canolbwyntio'n arbennig ar weithredu'r FfEY wedi caniatáu imi ryddhau adnoddau o'r Gronfa Ysgolion Gwell a dyraniadau Ysgolion Bach a Gwledig.

**Cymorth i Ddysgwyr**

Mae'r gyllideb hon yn gyfrifol am faterion cymorth i ddysgwyr sy'n sicrhau y rhoddir sylw i'r rhwystrau i ddysgwyr gyflawni eu potensial llawn. Mae hyn yn cynnwys:

Darpariaeth i ddysgwyr hyd at 19 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;

Dysgwyr hyn sydd ag anawsterau dysgu a/neu anableddau;

Ymddygiad a dadrithiad disgyblion; mesur i gefnogi dysgu plant sy'n derbyn gofal;

Hyrwyddo cyflawniadau addysgol lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys disgyblion Sipsiwn-Teithwyr;

Cefnogi dull ysgolion o wella safon bwyd a maeth mewn ysgolion (gan gynnwys prydau ysgol, menter brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd a llaeth ysgol);

Amddiffyn plant mewn sefydliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion;

Cydlynu rôl APADGOS ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed rhag cael eu cam-drin.

Mae cyllideb Cymorth i Ddysgwyr wedi cael £1.5m ychwanegol er mwyn symud yn gyflym tuag at un o amcanion datganedig yr Adran o ddarparu gwasanaeth cwnsela sydd ar gael i bob plentyn a pherson ifanc. Aildrefnwyd y Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig a gweithgarwch a gynlluniwyd o fewn cyllidebau Anghenion Dysgu Ychwanegol i barhau ar lefelau 2009-10.

**Cymwysterau, Cwricwlwm a Gwella Dysgu**

Mae Maes y Rhaglen Wariant yn cynnwys cyllid ar gyfer:

gwell canlyniadau a lles ar gyfer y dysgwr drwy gwricwlwm ysgol sy'n seiliedig ar sgiliau a threfniadau asesu cysylltiedig;

diwygio'r cymwysterau ar gyfer pob oedran a datblygu fframwaith credydau;

datblygiad proffesiynol ymarferwyr;

datblygu'r iaith Gymraeg;

sgiliau sylfaenol

**Y Cwricwlwm ac Asesu**

Mae'r gyllideb hon yn cefnogi materion sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ac asesu ac mae'n cynnwys:

Cyfnod Sylfaen 3-7 gan gynnwys materion cwricwlwm a chyllid;

Datblygu polisi ar gyfer trefniadau asesu CA2 a CA3 (dysgwyr 7 – 14 oed);

Canllawiau ar asesiad athro o fewn ac ar ddiwedd CA2 a CA3;

Addysg y Blynyddoedd Cynnar;

Iaith Pawb;

Cwricwlwm 7 – 19 oed;

Addysg Gorfforol a Menter Chwaraeon mewn Ysgolion;

Blwyddyn Darllen Genedlaethol;

Noddi Techniquest.

Byddwn yn parhau i ariannu'r gwaith o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen gan sicrhau cyllideb sy'n unol â modelu ariannol ac amcanestyniadau disgyblion ar gyfer 2010-11 i fodloni'r gymhareb oedolion disgyblion.

**Cymwysterau a Dysgu**

Mae gan y gyllideb weithredol hon gyfrifoldebau statudol, datblygiadau o ran cymwysterau a materion eraill sy'n ymwneud â chymwysterau gan gynnwys:

Rhoi cyngor ar bob agwedd ar gymwysterau cyffredinol, galwedigaethol a sgiliau;

Rheoleiddio cymwysterau allanol yn statudol, achredu'r cyrff sy'n eu dyfarnu a'r cymwysterau;

Rhoi cymorth i ddarparu cymwysterau cyfrwng Cymraeg;

Datblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol;

Cymhwyster Bagloriaeth Cymru;

Cysoni cymwysterau Sgiliau Allweddol a Sylfaenol;

Datblygu  Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru;

Adolygu/Diwygio TGAU a TAG Safon Uwch.

Er bod y cyllidebau Cymwysterau a Dysgu'n gweld cynnydd o 2009-10 yn bennaf mewn perthynas â chyflwyniad parhaol Bagloriaeth Cymru, nodwyd rhywfaint o fân enillion effeithlonrwydd o fewn y gyllideb gyffredinol hon.

**Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol**

Mae'r gyllideb hon yn cefnogi anghenion hyfforddi pobl sydd am fod yn athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr, gan gynnwys:-

Cefnogi athrawon ac ymarferwyr eraill drwy ddarparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus;

Datblygu a gweithredu strategaeth TGCh ac e-ddysgu.

Mae'r cyllidebau Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol wedi bod yn agored i'w hadolygu, a lleihawyd y cyllid sydd ar gael yn ôl disgresiwn ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus athrawon a phenaethiaid er mwyn bodloni blaenoriaethau eraill, gan gynnwys buddsoddi mewn rhaglenni sy'n ymateb yn uniongyrchol i'r hinsawdd economaidd sydd ohoni.

**Datblygu'r Iaith Gymraeg**

Cyfrifoldeb dros strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg a'i rhaglen weithredu ar gyfer pob oedran o dan ymrwymiadau 'Cymru'n Un'. Mae hyn yn cynnwys:

Cynlluniau Sabothol iaith Gymraeg i athrawon a darlithwyr;

Dulliau addysgu a dysgu ôl-16 cyfrwng Cymraeg a dwyieithog;

Sgiliaith – cefnogaeth i ddarparwyr ôl-16 cyfrwng Cymraeg a dwyieithog;

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog drwy Rwydweithiau Dysgu 14-10;

Comisiynu addysgu ac adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Sicrhawyd bod cyllid ychwanegol o £1.75m ar gael i ddatblygu argymhellion y Strategaeth Iaith Gymraeg ymhellach.

**Sgiliau Sylfaenol**

Mae gwella safon Sgiliau Sylfaenol ar gyfer dysgwyr o bob oedran yn cynnwys y gallu i ddarparu a chefnogi sgiliau sylfaenol ar gyfer y blynyddoedd cynnar, ysgolion addysg oedolion a dysgu yn y gweithle.

**Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes**

Mae'r Maes Rhaglen Wariant yn cynnwys cyllid i:

gefnogi cyfraniad APADGOS i arwain Cymru allan o'r dirwasgiad;

gyrru'r newidiadau sy'n ofynnol i'n rhwydwaith o sefydliadau addysg a hyfforddi er mwyn iddynt gyflwyno darpariaeth o ansawdd uchel sy'n hyblyg ac yn ymateb i anghenion cenedlaethol a lleol;

nodi anghenion unigolion, cyflogwyr a chymunedau yng Nghymru o ran eu gwybodaeth a'u sgiliau a diwallu'r anghenion hynny, er mwyn cyfrannu at sicrhau poblogaeth fedrus sydd wedi'u haddysgu i safon uchel.

**Busnes a Sgiliau**

Mae'r gyllideb hon yn cefnogi datblygiad strategaethau, polisïau a fframweithiau er mwyn sicrhau bod anghenion gwybodaeth a sgiliau busnesau, unigolion a chymunedau yn cael eu nodi i gefnogi agenda Cymru'n Un. Mae hyn yn cynnwys:

Buddsoddwyr mewn Pobl;

Gwasanaeth Cynghori Datblygu Adnoddau Dynol;

Rhaglen Datblygu'r Gweithle;

Cynllun Gweithredu ar Ddiswyddiadau (ReAct);

Rhaglen Gweithdy ar Arweinyddiaeth a Rheoli.

Mae'r gyllideb Busnes a Sgiliau yn parhau i gefnogi agenda Cymru'n Un i ddatblygu sgiliau i gefnogi gwella busnes a'i natur gystadleuol. Cafwyd llwyddiant mawr wrth ysgogi Cronfa Gymdeithasol Ewrop i fod yn sail ar gyfer ehangu'r gefnogaeth i ddatblygu Sgiliau Arweinyddiaeth a Rheoli, rhaglenni sgiliau sector a chymorth sgiliau dewisol/yn ôl disgresiwn sy'n gydnaws â'r rhaglen Cymorth Hyblyg i Fusnes. Hefyd, mae'r gyllideb a ddyrannwyd yn cynnwys £2.733m a neilltuwyd ac a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU ar gyfer dysgu carcharorion. Nodwyd rhai enillion effeithlonrwydd hefyd o fewn y gyllideb hon.

**Addysg Uwch**

Mae'r gyllideb weithredol hon yn darparu cyllid ar gyfer noddi Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ac adolygu'r cynnydd a wnaed tuag at nodau'r rhaglen Ymgeisio yn Uwch. Mae hyn yn cynnwys:

Datblygu polisi ar Ffioedd Dysgu;

Ehangu Mynediad;

Cwynion SAU;

Bwlch cyllido fframwaith a chyflogau SAU;

Ad-drefnu a Chydweithredu – Ymgeisio yn Uwch.

Bydd Addysg Uwch yn cael cyllideb sy'n cynnwys gofyniad i fodloni enillion effeithlonrwydd o tua 5% ar gyfartaledd. Bydd y gyllideb hefyd yn caniatáu rhywfaint o sgôp i ariannu datblygiadau yn y rhwydwaith addysg uwch a'r ddarpariaeth a fydd yn dod i'r amlwg o'r strategaeth a'r cynllun gweithredu newydd ar gyfer addysg uwch. Neilltuwyd cyllid ar gyfer y Brifysgol Agored o fewn y gyllideb gyffredinol hon.

**Dysgu Gydol Oes a Darparwyr**

Mae llinell cyllideb Dysgu Gydol Oes a Darparwyr yn darparu cyllid ar gyfer y dysgu sy'n digwydd yn y Chweched Dosbarth, mewn Colegau AB, canolfannau dysgu cymunedol i oedolion, lleoliadau dysgu sy'n seiliedig ar waith a Gyrfa Cymru. Mae'r dysgu a ariennir yn cynnwys cyrsiau lefel A, darpariaeth alwedigaethol, darpariaeth gymunedol fel Cymraeg i Oedolion, prentisiaethau ac Adeiladu Sgiliau - mae felly'n datblygu gweithwyr sy'n meddu ar sgiliau ar gyfer economi Cymru a'r disgyblion chweched dosbarth sy'n mynd i'r brifysgol. Bydd y gyllideb yn gofyn am enillion effeithlonrwydd o tua 5% ar gyfartaledd ar draws y sector ôl-16. Bydd cyllideb Gyrfa Cymru yn cael cynnydd o £800k (gyda chyfraniad pellach ar ben hyn oddi wrth Gronfa Gymdeithasol Ewrop) fel rhan o'r mesurau i wrthsefyll diweithdra. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys cyllid i yrru'r newidiadau strategol yn y rhwydwaith o ddarparwyr drwy'r agenda drawsnewid.

**Mesurau Economaidd – Sgiliau**

Rhoddwyd y rhaglen hon at ei gilydd i ymateb yn uniongyrchol i'r hinsawdd economaidd sydd ohoni. Mae hyn yn golygu bod modd cynnig rhagor o leoedd ar y rhaglenni Adeiladu Sgiliau a Llwybrau i Brentisiaethau.

**Mesurau Economaidd – Diweithdra**

Estyn oes y cynigion sgiliau sy'n gysylltiedig â'r Gwarant i Bobl Ifanc sy'n seiliedig ar gyflogaeth gan gynnwys rhaglenni Cronfa Swyddi'r Dyfodol a Chroeso Euraid.

### Gwella Busnes a Buddsoddi Adnoddau

Mae Maes y Rhaglen Wariant gan APADGOS yn cynnwys cyllid ar gyfer:

darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr a dysgwyr eraill mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.

Gyrru effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Adrannol, gwerth am arian, a gwella'r modd y caiff canlyniadau eu cyflwyno drwy ddefnyddio data a chudd-wybodaeth yn well;

ariannu ysgolion a chyfleusterau addysgol cyn ac ôl 16 eraill, er mwyn iddynt fod yn addas i'r diben a chael eu defnyddio'n gynyddol fel adnodd cymunedol.

#### Ariannu a Chyllid Myfyrwyr

Mae'r gyllideb Ariannu a Chyllid Myfyrwyr yn rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr, gan gynnwys drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Mae'r gyllideb hon hefyd yn cynnwys rhywfaint o arian cyfatebol Prosiectau Ewropeaidd gweddilliol sy'n dod i ben yn naturiol. Mae'r enillion effeithlonrwydd a nodir yn cynnwys tua £1.5m o'r Prosiectau Ewropeaidd a grybwyllwyd a £3.75m o ddiwygiadau i Gyllid Myfyrwyr.

#### Cyllid Cyfalaf

Mae'r gyllideb Cyllid Cyfalaf yn cynnwys y mwyafrif o gyllidebau cyfalaf APADGOS ac mae'r gostyngiad amlwg yn 2010 yn ganlyniad dwyn y cyllid ymlaen er mwyn ymateb yn uniongyrchol i'r hinsawdd economaidd sydd ohoni, gan ryddhau cyllid cyfalaf yn gynharach na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol. Bydd dull newydd o gyd-weithredu gyda llywodraeth leol ar gyfer datblygu Ysgolion yr 21ain Ganrif yn gwneud y mwyaf o effaith yr adnodd cyfalaf sydd ar gael i hybu gwerth cyhoeddus ac ymdrin â datblygiad cynaliadwy a newid hinsawdd.

#### Rheoli Gwybodaeth

Mae'r gyllideb Rheoli Gwybodaeth yn cynnwys cyllid i gefnogi gwerthuso ymchwil a marchnata. Nodwyd enillion effeithlonrwydd o £0.5m yn erbyn y cyllidebau hyn i fodloni blaenoriaethau mewn ardaloedd eraill yn y Prif Grwp Gwariant. Mae'r gyllideb hon hefyd yn cefnogi'r systemau casglu rheoli data APADGOS fel Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a ddefnyddir i gasglu data am addysg ôl-16, i ddilysu taliadau i ddarparwyr, i ddarparu data i gefnogi prosiectau Ewropeaidd ac archwilio sy'n sicrhau cyllid sylweddol ychwanegol i ategu rhaglenni prif ffrwd APADGOS. Nodwyd cyllid ychwanegol o tua £1.5m i uwchraddio a chynnal y systemau a weithredir gan APADGOS ac i gyfrannu i Reoli Gwybodaeth ar draws Partneriaid (MIAP).

#### Prosiectau Strategol

Mae'r gyllideb ar gyfer Prosiectau Strategol yn cefnogi mentrau rhyngwladol APADGOS, a nodwyd rhai enillion effeithlonrwydd yn erbyn y rhain.